Parc Arfordirol y Milenium

Gwarchodfa Natur Leol Twyni Doc y Gogledd

Taith Gron i Gerddwyr

Pellter:
2km / 1.2 millitir

Tir:
Llwybr troed, tywod

Graddiant:
Gwastad

Hyd:
40 mun

Mynediad ar hyd rhodfa'r môr ger y ganolfan ymwelwyr.

Trafnidiaeth Cyhoeddus:
Bws 181 i Doc y Gogledd, Llanelli (www.firstgroup.com)

Yn y car:
D.Dd Sir Gâr.
A484 a B4304 i faes parcio talu ac arddangos yn Noc y Gogledd, Llanelli.

Cyfeirnod Map:
SS 497 995

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl 100023377 (2007) © Crown copyright. All rights reserved 100023377 (2007)

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

Gwarchodfa Natur Leol Twyni Doc y Gogledd

Taith Gron i Gerddwyr

1. Y planhigion sydd yn tyfu agosaf at y môr yw'r rhai sydd yn gallu gwrthsefyll yr heli. Mae'r rhain yn cynnwys marchwellt tywyn, helys pigog, tywodlys arfor, a hegydd arfor.
2. Mae'r draethlin yn llecyn pwysig i greaduriaid di-asgwrn-cefn gan fod yno loches laith rhag gwres yr haul ar ei danbeitiaf. Cadwch lygad am chwain traeth a chwilod.
3. Mae twyni tywod fel petaent yn gwrthsefyll tynfa disgyrchiant! Ffurfir y rhain wrth i dywod sych gael ei chwythu o'r traeth a chael ei ddal gan y planhigion hynny sydd yn gallu gwrthsefyll heli'r môr. Mae moresg yn tyfu ar y twyni mawr.
4. Yn y gwanwyn mae'r glaswelltir yn fôr o liw. Gallwch weld yno blanhigion megis melynydd, peradyl yr hydref, a gwalchlys llyfn sydd oll â blodau melyn tebyg i flodau llygad y dydd. Hefyd mae celyn y môr, llaethlys y môr, a phabi'r môr (sydd yn blanhigyn prin) yn tyfu yma. Mae taglys arfor yn tyfu ar hyd y llawr.
5. Yn y gaeaf cadwch lygad am adar megis hwyaid llostfain, pibyddion coesgoch, pibyddion y mawn, a gylfinirod. Yn ogystal, ar benllanw mae'r ardal yn fan clwydo i wylanod, rhydyddion, a hwyaid.
6. Mae planhigion sydd yn nodweddiadol o forfa heli, gan gynnwys llygwyn llwydwyn, yn tyfu ar y morfa canol. Ger y llwybr ym mhen uchaf y morfa y mae marchwellt arfor yn tyfu.
7. Mae'r twyni hyn yn fan da i weld ieir bach yr haf megis y glesyn bach. Yr unig le y gellir gweld y rhywogaeth hon yw lle mae ei unig fwyd, sef plucen felen, yn tyfu. Bellach mae glaswelltir y twyni hyn yn gadarnle i'r iâr fach gleisiog (sydd yn rhywogaeth brin) y mae ei bwyd yn cynnwys peisgwellt coch.
8. Ar y bencydd cysgodol ceir amrywiaeth o flodau megis gludlys arfor, sydd yn tyfu'n doreithiog yn lleol; pysen y ceirw, sydd â blodau melyn llachar; a'r pengaled mawr, sydd yn blanhigyn prin. Mae'r ieir bach yr haf nodweddiadol yn cynnwys y glesyn cyffredin, y fantell goch, a'r iâr wen fawr.
9. Cadwch lygad am falwod y twyni sydd i'w gweld yn ystod yr haf yn llechu ar goesynnau planhigion er mwyn osgoi'r tywod crasboeth. Rhywogaeth a gysylltir â Môr y Canoldir yw hon, ac yn y man hwn mae ar ei ffin ogleddol.
10. Yn ystod y gaeaf gellir gweld heidiau cymysg o linosod, teilwriaid Llundain, a llinosod gwyrddion yn bwydo ar yr hadau yn y pennau blodau crin, ynghyd ag ambell gudyll coch yn hela mamaliaid bychain ar y twyni.
11. Mae'r hesgen arfor yn tyfu yma, a chan fod y planhigyn hwn yn ymledu'n rhwydd mae'n helpu i sefydlogi'r tywod. Mae planhigion anghyffredin yn tyfu yn y cyffiniau oherwydd yr amodau anarferol, gan fod y pridd tywodlyd sych yn gallu bod yn gynnes iawn yn yr haf.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Pharcmon y Gwarchodfeydd Natur Lleol drwy ffonio 01554 772 368.

A fyddwch chi gystal â chadw at y llwybrau yn ystod y gwanwyn a'r haf er mwyn peidio â tharfu ar adar sydd yn nythu. Gan fod adar yn gorffwys ar y traeth ac yn yr aber, yn enwedig ar benllanw, a fyddwch chi gystal ag atal cŵn rhag eu cwrso.

Côd Cefn Gwlad

Parchwch - Gwarchodwch - Mwynhewch

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Gofalwch eich bod chi'n gwarchod planhigion ac anifeiliaid, ac ewch â'ch sbwriel gartref
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

80% wedi ei ailgylchu